OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 No. 2197

## Rheoliadau Tir Halogedig(Cymru) 2001

**Iawndal am hawliau mynediad etc.**

**6.** Bydd Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn yn cael effaith—

(a) ar gyfer rhagnodi'r cyfnod pryd y caiff person sy'n rhoi, neu'n ymuno i roi, unrhyw hawliau yn unol ag adran 78G(2) wneud cais am iawndal am roi'r hawliau hynny;

(b) ar gyfer rhagnodi dull gwneud cais o'r fath, a'r person y gellir gwneud y cais iddo: ac

(c) ar gyfer rhagnodi drwy ba ddull y mae'n rhaid penderfynu swm yr iawndal hwnnw ac ar gyfer gwneud darpariaeth bellach ynglŷn â'r iawndal hwnnw.